


TGAU Mathemateg Ychwanegol

Cwestiynau "Anoddach"

1. Pwysau bag o flawd yw 360g.
Sawl bag fydd yn rhaid i chi brynu er mwyn cael rhif cyfan o gilogramau?
2. Heb gyfrifiannell, lluoswch 2 a hanner efo un a phumed efo 3 ac wythfed efo 6 a dau pumed.
3. Mae 9 pwmp dwr yn gallu gwagio tanc mawr mewn 20 munud.
Os oes 4 pwmp yn torri, faint o amser fyddai'r 5 pwmp arall yn ei gymryd i wagio'r un tanc?
4. Mae darlun 12cm wrth 18 cm yn cael ei ludo ar gerdyn sydd a'i ddimensiynau yn 4 cm yn fwy na'r darlun. Beth yw arwynebedd y cerdyn sy'n amgylchynu'r darlun?
5. Os yw $AB = 26\text{cm}$, $CD = 19\text{cm}$ a $BD = 24\text{cm}$, cyfrifwch hyd AC, yn gywir i'r mm agosaf.



6. Mae un rhif yn dri yn fwy na rhif arall. Os yw'r rhif lleiaf yn cael ei ddyblu mae'r ateb 14 yn fwy na'r rhif mwyaf. Darganfyddwch y ddau rif.
7. Mae tad 45 oed efo mab 16 oed.
Mewn sawl blwyddyn fydd oed y tad yn ddwbl oed y mab?
8. Os yw $x : y = 5 : 4$ ac $y : z = 14 : 15$, cyfrifwch y gymhareb $x : z$.
9. Lluniwch driongl ABC gydag $AB = 6.4\text{ cm}$, $BC = 6.4\text{ cm}$, $CA = 3.6\text{ cm}$.
Darganfyddwch leoliad y pwynt P sydd yn gyttbell o CA a CB ac sydd 5.2 cm o A.
Mesurwch y pellter rhwng y pwynt P a'r pwynt B.
10. Mae 5% o rif yn 96. Beth yw $7\frac{1}{2}\%$ o'r rhif?

11. Mewn etholiad roedd dau ymgeisydd. Cafodd un ymgeisydd 53% o'r pleidleisiau a hefyd roedd ganddo 96 pleidlais yn fwy na'r llall. Beth oedd cyfanswm y pleidleisiau?
12. Heb gyfrifiannell, symleiddiwch $\left(3\frac{1}{9} \times 3\frac{1}{2}\right) \div \left(4\frac{2}{3} \times \frac{2}{5}\right)$
13. Rhannwch $\frac{21a^2}{16b^3}$ efo $\frac{3a}{4b^2}$
14. Caiff disgybl 3 marc an bob ateb cywir mewn prawf ond bydd yn colli 1 marc am bob ateb anghywir.
Mae'n ateb 20 cwestiwn i gyd a chafodd 44 marc. Faint gafodd yn anghywir?
15. Lled trac rhedeg crwn yw 4m. Mae radiws mewnol y trac yn 100m.
Faint yn bellach yw rhedeg rownd ymyl allanol y trac yn hytrach na'r ymyl fewnol?
(Rhowch eich ateb yn gywir i'r cm agosaf.)
16. Os yw $2\pi rh = 264$ darganfyddwch h pan fo $r = 21$.
(Rhowch eich ateb yn gywir i 5 ffigur ystyrlon.)
17. Beth yw cymedr yr oedrannau yma?
13bl 4mis, 13bl 7mis, 13bl 9mis, 14bl 1mis, 12bl 11mis, 12bl 10mis?
18. Symleiddiwch $\frac{1}{x} + \frac{1}{2x} + \frac{1}{3x} + \frac{1}{4x}$.
19. Symleiddiwch $\sqrt{9x^6}$.
20. Symleiddiwch $3(a - (t - a)) - 2(t - (a - t))$

Atebion

- | | |
|---------------------|----------------------|
| 1. 25 | 11. 1600 |
| 2. 60 | 12. $5\frac{5}{6}$ |
| 3. 36 munud | 13. $\frac{7a}{4b}$ |
| 4. 136cm^2 | 14. 4 |
| 5. 23.0cm | 15. 25.13m |
| 6. 17 a 20 | 16. 2.0008 |
| 7. 13 | 17. 13bl 5mis |
| 8. 7 : 6 | 18. $\frac{25}{12x}$ |
| 9. 4cm | 19. $3x^3$ |
| 10. 144 | 20. $8a - 7t$ |